Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

20 Tachwedd 2026

TEITL: Newidiadau i aelodaeth Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y CBC

AWDUR: Mark Watkins, Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi newidiadau i gynrychiolaeth gan gynghorau cyfansoddol ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y CJC

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod gofyn i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig benodi'r aelodau a ganlyn fel dirprwy aelodau o'i Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

2.1 Y Cynghorydd Austin Roberts fel y dirprwy aelod ar gyfer Cyngor Conwy

2.2 Y Cynghorydd Gwyneth Elis fel y dirprwy aelod ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych

2.3 Y Cynghorydd Carolyn Preece fel y dirprwy aelod ar gyfer Cyngor Sir y Fflint

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1 Mae angen cymeradwyaeth y CBC ar gyfer newidiadau i enwebiadau dirprwy aelodau gan gynghorau cyfansoddol, ac er mwyn diweddaru ei gofnodion aelodaeth.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1 Mae dirprwy aelodau yn cael eu henwebu gan y cynghorau cyfansoddol i fynychu is-bwyllgorau pan nad yw'r aelod enwebedig yn gallu mynychu, er mwyn sicrhau bod cworwm y cyfarfod yn parhau, lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r enwebiadau yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y CBC.

5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

5.1 Dim, mae hyn yn fusnes arferol.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1 Mae adran 5.11.3 o'r Cyfansoddiad a chylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn darparu ar gyfer chwe aelod etholedig a thri aelod lleyg, gyda phenodiadau yn cael eu gwneud gan y CBC. Dirprwy aelodau sy'n cael eu penodi yma, i fynychu os nad yw'r aelod enwebedig yn gallu.

6.2 Bydd y Gwasanaethau Democratiaeth yn cadw'r gofrestr aelodaeth lawn ar wahân; nid oes angen ei atodi i'r adroddiad hwn.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Dim

8. DOGFENNAU CEFNDIR

Dim

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Rwy'n fodlon bod yr argymhellion yn gyson â Chyfansoddiad y CBC a'r fframwaith statudol perthnasol.

ii. Swyddog Adran 151:

“Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.”